


ADRODDIAD CLWSTWR AR Y DIWYDIANNAU CREADIGOL RHIF 1.2

# Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR ADRODDIAD: MAINT A CHYFANSODDIAD Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YNG NGHYMRU YN 2019

Llinell sylfaen ar gyfer mesur effaith COVID-19 ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru

Mate Miklos Fodor, Marlen Komorowski a Justin Lewis
Ionawr 2021

clwstwr
Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
University of South Wales / Prifysgol De Cymru
MetCaerdydd / CardiffMet
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Creative Clusters
Arts & Humanities Research Council
Industrial Strategy

## YNGLŶN Â'R ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen Clwstwr, prosiect pum mlynedd sydd â'r nod o roi arloesi wrth wraidd y broses o gynhyrchu cyfryngau yn Ne Cymru.  Mae Clwstwr yn awyddus i adeiladu ar lwyddiant De Cymru o ran creu cynnwys creadigol drwy roi ymchwil a datblygu wrth wraidd y broses gynhyrchu.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:


CLWSTWR

Neuadd y Ddinas
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3ND
Ffôn: 02922 511434
Ebost: clwstwrcreadigol@caerdydd.ac.uk
Twitter: @ClwstwrCreu
www.clwstwr.org.uk

# PRIF GANFYDDIADAU

***Yn seiliedig ar y data diweddaraf a oedd ar gael yn 2021 (gan roi cipolwg ar gyfer 2019, cyn pandemig COVID-19), gwelsom ddatblygiad cadarnhaol clir yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd.***

## Cymru

**Mae 8,600 o fentrau**

ar waith yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2019.  Mae hyn yn gynnydd o 8% o'i gymharu â 2017.

**Mae 500 o fentrau newydd**

yn mynd i mewn i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru bob blwyddyn.

**Mae 84,500 o bobl**

yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru (fel gweithwyr a gweithwyr llawrydd), sef cynnydd o tua 5.6% o'i gymharu â 2017.

**Mae 99% o gwmnïau**

yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn rhai bach ac yn cyflogi llai na 50 o bobl.

---

## Caerdydd a Phrifddinas-Ranbarth

**Mae 60%**

o'r holl gwmnïau creadigol wedi'u lleoli ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Mae 37%**

o holl drosiant diwydiannau creadigol Cymru yn cael ei gynhyrchu yng Nghaerdydd yn unig, o'i gymharu â 32% yn 2017, sy'n dangos bod gweithgareddau creadigol yn canolbwyntio fwy yng Nghaerdydd.

**Mae yna tua**

**3,900**

o weithwyr yn sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth Caerdydd;

**5,300**

o weithwyr yn sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol Caerdydd; a

**2,500**

o weithwyr yn sector cerddoriaeth, celfyddydau perfformio a chelfyddydau gweledol Caerdydd.

# Cynnwys

**PRIF GANFYDDIADAU** ........ **0**

**Cynnwys** ........ **2**

**Cyflwyniad** ........ **4**

Nodyn methodolegol ........ 4

**Canfyddiadau** ........ **7**

***Mentrau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd*** ........ **7**

Niferoedd allweddol ........ 7

Maint y cwmni ........ 7

Trosiant a chyfraniad cynnyrch domestig gros ........ 7

***Gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd*** ........ **9**

Niferoedd allweddol ........ 9

Dosbarthiad sector ........ 9

Cyfraddau twf ........ 10

Daearyddiaeth ........ 12

**CASGLIAD** ........ **14**

Ynglŷn â'r awduron ........ 16

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2019. Yn bwysig, mae'n manylu ar faint a chyfansoddiad y sector yng Nghymru yn union cyn y tarfu a achoswyd gan COVID-19. Felly, bydd yn llinell sylfaen a fydd yn ein galluogi i roi asesiadau cywir a manwl o effaith COVID-19 ar fentrau creadigol yng Nghymru yn yr astudiaeth sydd i'w chynnal yn haf 2022, pan fydd data cywir o 2020 ar gael.**

Felly, mae dau brif ddiben i'r adroddiad hwn. Yn gyntaf, mae'n diweddaru adroddiad cynharach[1] ar faint a chyfansoddiad diwydiannau creadigol Cymru, yn seiliedig ar ddata rhwng 2009 a 2017. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r data diweddaraf sy'n edrych ar 2018 a 2019 ac felly'n rhoi cipolwg ar y sefyllfa cyn COVID-19.

Cewch hyd i'r adroddiad llawn ar faint a chyfansoddiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru o 2020 drwy https://clwstwr.org.uk/cy/adroddiad-clwstwr-ar-y-diwydiannau-creadigol-rhif-1-maint-chyfansoddiad-y-diwydiannau-creadigol-yng.

Yn ail, mae'n rhoi ffocws ychwanegol ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ogystal â Chymru a Chaerdydd, o gofio bod gan y bwrdeistrefi o amgylch Caerdydd weithgarwch diwydiannau creadigol sylweddol.

## Nodyn methodolegol

Er mwyn darparu data cyson i adroddiad 2020, mabwysiadwyd yr un egwyddorion methodolegol a ddefnyddiwyd gennym yn ein hastudiaeth flaenorol, a gellir dod o hyd i ddisgrifiad manwl am y fethodoleg yn yr adroddiad blaenorol.

Ar gyfer yr astudiaeth hon, defnyddiwyd gwybodaeth am 18,643 o fusnesau a dynnwyd o Orbis (cronfa ddata fyd-eang ar ddata ariannol cwmnïau a

[1] Komorowski, M. a Lewis, J. (2020). Adroddiad Clwstwr ar y Diwydiannau Creadigol Rhif 1: Maint a chyfansoddiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr. Cewch fynediad drwy https://clwstwr.org.uk/cy/adroddiad-clwstwr-ar-y-diwydiannau-creadigol-rhif-1-maint-chyfansoddiad-y-diwydiannau-creadigol-yng

gyhoeddwyd gan Bureau van Dijk).[2] Cafodd meysydd data gwag ar nifer y gweithwyr a throsiant eu cysoni drwy gymhwyso gwerthoedd canolrifol a chyfartalog y blynyddoedd perthnasol.[3] Mae'r data a lawrlwythwyd ar gyfer 2018 a 2019 o set ddata Orbis wedi'i gysoni'n llawn i fod yn gwbl gydnaws â'r data a ddefnyddiwyd yn ein hadroddiad blaenorol. Er y gall anghysondebau bach mewn ychydig o fetrigau barhau, amcangyfrifwn na fyddant yn fwy na lwfans ystadegol o 1%. Dadansoddwyd y data gyda Tableau a Stata 16. **Mae'r data'n cynrychioli ffigurau o 2019 (y data diweddaraf sydd ar gael yn 2021 oherwydd gofynion ffeilio cwmnïau).**

Mae codau'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC 2007) a ddefnyddir gan Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y DU i ddisgrifio'r diwydiannau creadigol wedi cael eu defnyddio i dynnu data am fusnesau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, gyda'r diwydiannau creadigol yn cael eu categoreiddio mewn naw prif sector, fel a ganlyn:[4] hysbysebu a marchnata; pensaernïaeth; crefftau; dylunio a ffasiwn dylunwyr; ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol; cyhoeddi; amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd; a cherddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol.

Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar Gymru, gyda data wedi'i rannu ymhellach ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chaerdydd. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynrychioli'r deg awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr

---

[2] Gweler bvdinfo.com/en-gb/our-products/data/international/orbis.

[3] Cyfrifwyd y wybodaeth goll am nifer y gweithwyr fel y canolrif cyflogaeth yn y cwmnïau a oedd yn adrodd nifer. Mae angen bod yn ofalus iawn, oherwydd nid yw'n caniatáu i'r mentrau mwy sydd â gofynion statudol i adrodd ar nifer eu gweithwyr lusgo amcangyfrifon i fyny (a fyddai'n wir, pe baem wedi defnyddio'r cymedr yn hytrach na'r canolrif). O ystyried bod llawer mwy o amrywiad mewn trosiant a gofnodwyd (ac, yn hytrach na nifer y gweithwyr, nid rhifau naturiol yw ffigurau trosiant), rydym wedi defnyddio methodoleg wahanol, er yr un mor ofalus. Rydym wedi cymryd trosiant yr 85% isaf o'r cwmnïau a oedd wedi adrodd y wybodaeth hon ac rydym wedi cymryd y cyfartaledd ar eu traws. Mae hyn eto'n caniatáu i ni ddileu'r gwyriad y byddai'r cwmnïau TG, stiwdios a chwmnïau darlledu mawr yn ei roi ar gymedr syml.

[4] Mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn yn cynnwys pob math o waith creadigol (mae llawer o bobl greadigol yn gweithio mewn sectorau eraill) na gweithgareddau ac allbwn creadigol nad ydynt ar gyfer y farchnad. Felly, mae'n debygol mai ffigurau ceidwadol sydd gennym ar gyfer nifer y gweithwyr creadigol. I gael rhagor o fanylion am sut y caiff diwydiannau creadigol ac economi greadigol y DU eu diffinio a'r hyn y maent yn ei gynnwys ac nad ydynt yn ei gynnwys o ran gweithgareddau, gweler: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/499683/CIEE_Methodology.pdf

Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd a Chaerdydd). Mae data Caerdydd yn seiliedig ar ardaloedd cod post yn y ddinas.

# Canfyddiadau

## Mentrau yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd

### Niferoedd allweddol

Mae cyfanswm o tua 8,600 o fentrau gweithredol yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o fentrau creadigol yng Nghymru mewn tri sector, gyda 3,205 o fentrau yn y sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol, 1,571 o fentrau yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth, a 1,443 o fentrau yn y sector cerddoriaeth, perfformio a chelfyddydau gweledol. Dyma'r tri sector mwyaf (o ran nifer y mentrau) ledled Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chaerdydd.  Fodd bynnag, mae Caerdydd ei hun yn bwerdy ar gyfer ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth (gweler isod am fwy ar feintiau sector).

### Maint y cwmni

Mae diwydiannau creadigol y DU yn cynnwys mentrau bach a microfentrau yn bennaf – amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am 95% o fusnesau creadigol yn gyffredinol.[5] Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru, lle mae mwy na 99% o gwmnïau yn y diwydiannau creadigol yn cyflogi llai na 50 o weithwyr.  Dim ond 34 o fentrau sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr (mentrau canolig) a dim ond 5 sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr (mentrau mawr).


### Trosiant a chyfraniad cynnyrch domestig gros

Amcangyfrifir mai cyfanswm trosiant diwydiannau creadigol Cymru yw £4bn yn 2019, sef 5% o gyfanswm y cynnyrch domestig gros yng Nghymru. Mae cyfraniad cynnyrch domestig gros y sector hefyd yn debygol o fod o gwmpas y lefel hon.[6] Mae tua 58% o hyn wedi'i grynhoi ym Mhrifddinas-Ranbarth

[5] Gweler https://www.creativeindustriesfederation.com/sites/default/files/2018-12/Creative%20Industries%20Federation%20-%20Growing%20the%20UK%27s%20Creative%20Industries.pdf


[6] Mae cyfraniad cynnyrch domestig gros yn cynnwys gwerth ychwanegol uniongyrchol a chreu gwerth anuniongyrchol (costau mewnbynnau, cyflogau a wariwyd yn lleol, ac ati).

Caerdydd, y cynhyrchodd ei mentrau amcangyfrif o £2.3bn (gweler Ffigur 1), sy'n cynrychioli twf o 23% ers 2017, ac mae'n cyfrif am lawer o'r twf cyffredinol ledled Cymru.




Ffigur 1: Trosiant a gynhyrchwyd gan y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd dros amser.

O hyn, cynhyrchir £1.5 biliwn – 37% o'r holl drosiant cenedlaethol o ddiwydiannau creadigol – yng Nghaerdydd (gweler Ffigur 2). Mae hyn yn cynrychioli twf o 30% ers 2017, sy'n llawer mwy na chyfanswm y twf cenedlaethol o tua 8% yng ngweddill Cymru (ac eithrio Caerdydd), sef 1.8%.




Ffigur 2: Trosiant a gynhyrchwyd gan y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd dros amser.

# Gweithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a Chaerdydd

## Niferoedd allweddol

Rydym yn amcangyfrif bod yr 8,600 o fentrau yng Nghymru yn cyflogi mwy na 42,200 o weithwyr yn *uniongyrchol*, sef 3% o gyfanswm y swyddi yng Nghymru.


Fodd bynnag, mae'r ffigur ar gyfer cyflogaeth uniongyrchol yn tanamcangyfrif nifer y bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol, sy'n dibynnu'n arbennig ar weithwyr llawrydd. Ar gyfartaledd, mae bron 50% o weithlu creadigol y DU yn hunangyflogedig. Felly, gallwn amcangyfrif bod tua 84,500 o bobl yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru (gan gynnwys gweithwyr cyflogedig a llawrydd).

Y brifddinas sydd â'r crynodiad mwyaf o bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol – mae tua 1 o bob 7 o swyddi mewn cwmnïau yng Nghaerdydd yn y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers 2017, pan oedd y gymhareb yn 1 o bob 10.

## Dosbarthiad sector

Mae dosbarthiad gweithwyr yn y gwahanol sectorau o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn dangos dosbarthiad tebyg yn fras, gyda thri sector yn cynrychioli'r rhan fwyaf o weithwyr (gweler Ffigur 3):

- Mae mwy na 14,700 o bobl yn gweithio yn y sector TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol ledled Cymru (cynnydd o 5% ers 2017).
- Mae'r sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth yn cyflogi mwy na 9,000 o bobl ledled Cymru (cynnydd o 13% ers 2017).
- Mae'r sector cerddoriaeth, celfyddydau perfformio a chelfyddydau gweledol yn cyflogi mwy na 7,500 o bobl ledled Cymru (cynnydd o 7% ers 2017).




Ffigur 3: Maint y sectorau creadigol yng Nghymru yn seiliedig ar nifer y gweithwyr.


Yn fras, mae dosbarthiad cyflogaeth greadigol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn unol â Chymru gyfan. Mae Caerdydd, ar y llaw arall, yn dangos cryfder arbennig yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth, sy'n ffurfio tua chwarter cyflogaeth mentrau creadigol y ddinas.

## Cyfraddau twf

Tyfodd nifer y gweithwyr yn niwydiannau creadigol Cymru ar gyfradd gyfansawdd flynyddol gyfartalog o 2.0% rhwng 2009 a 2019. Dangosodd Caerdydd gyfradd twf gryfach o 2.7% tan 2017, gyda chyfradd twf o fwy na dwywaith cyfartaledd Cymru (4.3%) yn 2018 a 2019. Mae'r cyfraddau twf hyn yn uwch na'r cynnydd yn nifer y mentrau, gan gyrraedd cyfartaledd cyfansawdd blynyddol o 1.2% yng Nghymru a 3.6% yng Nghaerdydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2009 a 2019. Mae hyn yn dangos bod twf yn parhau i ddod o *greu busnesau newydd* a *thwf maint* y mentrau presennol. Gwelwyd cyfraddau twf cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd yn llawer o'r sectorau creadigol. Er enghraifft, gwelsom gyfradd twf blynyddol gyfartalog yng Nghymru o (gweler Ffigur 4):

- 5.4% yn y sector amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd;
- 4.4% yn y sector dylunio;
- 2.5% yn y sector cerddoriaeth, celfyddydau perfformio a chelfyddydau gweledol;
- 2.7% yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth;
- 2.4% yn y sector pensaernïaeth;
- 1.8% yn y sector hysbysebu a marchnata.

Ac eithrio cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol, mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi gweld twf cyflogaeth cyfansawdd blynyddol cyfartalog sylweddol gyflymach ar lefel sectoraidd na Chymru gyfan. Mae'r gwahaniaeth yn arbennig o weladwy yn y sectorau TG a ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth (gweler Ffigur 4).




Ffigur 4: Cynnydd yn nifer y gweithwyr yn economi greadigol Cymru yn ôl sector.

Mae'r cyfraddau twf uchel ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn deillio o Gaerdydd, lle roedd y rhan fwyaf o'r sectorau creadigol yn llawer mwy na'r cyfartaleddau cenedlaethol. O ran twf cyflogaeth sectoraidd, gellir esbonio mantais Caerdydd yn bennaf gan dwf cyflogaeth uchel yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth, yn ogystal ag mewn dylunio a ffasiwn dylunwyr (ac, i ryw raddau, yn y sector amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd cymharol fach).


Cynyddodd y cyfraddau twf anghymesur hyn bwysigrwydd Caerdydd fel catalydd ar gyfer twf yn niwydiannau creadigol y DU. Mae cyfraddau twf blynyddol Caerdydd wedi cyflymu (o'u cymharu â'r cyfnod rhwng 2009 a 2017) ym mhob sector creadigol (ac eithrio'r sectorau pensaernïaeth ac amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd).

## Daearyddiaeth

Mae'r mapiau canlynol (gweler Ffigur 5) yn delweddu dosbarthiad daearyddol diwydiannau creadigol Cymru. Mae pob cylch yn y map cyntaf yn ardal cod post yng Nghymru. Mae maint y cylch yn dangos nifer y gweithwyr yn y diwydiannau creadigol yn yr ardal honno. Mae'r ail fap yn dangos nifer y gweithwyr yn y diwydiannau creadigol sydd wedi'u lleoli yn y gwahanol ardaloedd cod post ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

- Yn gyffredinol, mae'r mapiau'n dangos dwysedd uchel o weithwyr yn y diwydiannau creadigol yn ardal De Cymru, y mae Caerdydd yn rhan annatod ohoni.
- Er bod Caerdydd a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ardaloedd craidd ar gyfer diwydiannau creadigol, mae cyflogaeth sylweddol yn Abertawe hefyd.
- Mae mannau allweddol o weithgarwch (er yn fwy cyfyngedig) yng Ngogledd Cymru.
- Ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, nid Caerdydd yw'r unig fwrdeistref sydd â chyflogaeth sylweddol mewn sectorau creadigol, gyda gweithgarwch sylweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd, Bro Morgannwg a Thorfaen.
- Mae'r crynodiad uchaf o weithwyr mentrau creadigol yng nghanol dinas Caerdydd (gan gynnwys Bae Caerdydd), diolch i raddau helaeth i bresenoldeb BBC Cymru Wales, Pentref Drama Porth y Rhath, a nifer o gwmnïau creadigol a mannau gwaith mawr eraill.
- Er gwaethaf y crynodiad hwn, mae cyflogaeth sylweddol mewn rhannau eraill o'r ddinas. Felly, er enghraifft, mae *cyfanswm* cyflogaeth

y diwydiant creadigol ym Mynachdy, y Mynydd Bychan, Llwynfedw, Llanisien, Rhydypennau neu Riwbeina (CF14) yn fwy nag yng nghanol y ddinas.




Ffigur 5: Dosbarthiad gweithwyr yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

# CASGLIAD

MAE EIN CANFYDDIADAU'N CADARNHAU BOD Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YN RHAN BWYSIG SY'N TYFU O ECONOMI CYMRU. GYDA CHRYNODIAD O WEITHGAREDDAU CREADIGOL YNG NGHAERDYDD A PHRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD.

Rydym wedi amcangyfrif bod mwy nag 8,600 o fentrau gweithredol ac 84,500 o bobl yn gweithio yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'r nifer hwn yn debygol o gynyddu dros y tymor hir, yn enwedig yn y sectorau creadigol hynny – fel ffilm a theledu – lle rydym wedi gweld cyfraddau twf uwch na'r cyfartaledd.

Yn gyffredinol, yn 2018 a 2019, cyflymwyd twf mewn diwydiannau creadigol, o ran trosiant a chyflogaeth (ar y lefelau cyfanredol a sectoraidd).

Yng Nghymru, mae'r diwydiannau creadigol wedi cael eu dominyddu gan dri sector ac yn parhau i gael eu dominyddu ganddynt: TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol; ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth; a cherddoriaeth, y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol. Yng Nghaerdydd, mae cwmnïau yn y sector ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth yn cyflogi mwy na 3,800 o bobl (i fyny bron i 27% ers 2017).

Mae'r rhan fwyaf o fentrau creadigol Cymru ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac mae Caerdydd yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o drosiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae twf cyflogaeth Caerdydd ym mron pob sector creadigol wedi rhagori ar lefelau yng ngweddill Cymru. Mae'r canfyddiadau hyn yn cadarnhau ac yn ymhelaethu ar y tueddiadau a nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol,[7] sy'n awgrymu hyd yn oed mwy o botensial o ran twf yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac yn benodol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

---

[7] Komorowski, M. a Lewis, J. (2020). Adroddiad Clwstwr ar y Diwydiannau Creadigol Rhif 1: Maint a chyfansoddiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr. Cewch fynediad drwy https://clwstwr.org.uk/cy/adroddiad-clwstwr-ar-y-diwydiannau-creadigol-rhif-1-maint-chyfansoddiad-y-diwydiannau-creadigol-yng

Mae'r adroddiad hwn yn darparu data ar ddiwydiannau creadigol Cymru cyn y tarfu a achoswyd gan COVID-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar lawer o fusnesau creadigol a gweithwyr llawrydd. Yn ogystal, nodwyd bod y gystadleuaeth ryngwladol gynyddol yn y farchnad a heriau digideiddio yn tarfu ar dwf yn y diwydiannau creadigol.

Ein nod gyda mentrau fel Clwstwr a Media.Cymru yw gwneud camau pwysig o ran darparu'r cymorth sydd ei angen yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i alluogi twf cynaliadwy a hirdymor a diogelu'r sectorau at y dyfodol rhag argyfyngau ac amhariadau eraill.

Rydym yn gwahodd y darllenydd i edrych ar ein gwefan i weld prosiectau parhaus a gorffenedig y mae Clwstwr (https://clwstwr.org.uk/cy) wedi'u cefnogi hyd yma ac i gysylltu â ni i ymgysylltu â ni ar y rhaglen Media.Cymru sydd ar y gweill, a fydd yn dechrau yn 2022.

## Ynglŷn â'r awduron

### Dr Mate Miklos Fodor, Cydymaith Ymchwil Clwstwr

Mae Mate yn Athro Cyswllt Economeg yn yr Ysgol Economeg Newydd ym Mhrifysgol Satbayev yn Almaty ac yn Gydymaith Ymchwil yn Clwstwr. Mae Mate yn cynnal dadansoddiadau econometrig ac ystadegol i werthuso meysydd polisi allweddol yr economi greadigol yng Nghaerdydd a thu hwnt. Mae diddordebau ymchwil Mate ym maes economeg llafur a datblygu ac mae'n addysgu ystod eang o bynciau yn yr Ysgol Economeg Newydd, gan gynnwys econometreg ac economeg llafur.

### Yr Athro Dr Marlen Komorowski, Dadansoddwr Effaith Clwstwr

Marlen sy'n cynnal y dadansoddiad effaith o ymyriadau'r Clwstwr yn y sector sgrin (a'r diwydiannau creadigol yn fwy cyffredinol) yn Ne Cymru. Mae'n Athro Gwadd yn Vrije Universiteit ym Mrwsel a hefyd yn gysylltiedig â chanolfan ymchwil imec-SMIT-VUB (Astudiaethau Cyfryngau, Arloesi a Thechnoleg) ym Mrwsel. Fel ymchwilydd, mae ei gwaith yn canolbwyntio ar brosiectau'n ymwneud â'r cyfryngau a'r diwydiannau creadigol, dadansoddi effaith, clystyru diwydiant, dadansoddi ecosystemau a rhwydweithiau gwerth, modelau busnes newydd, ac effaith digideiddio ac arloesi ar ddiwydiannau a chwmnïau.

### Yr Athro Dr Justin Lewis, Cyfarwyddwr Clwstwr

Mae Justin yn Athro Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Prifysgol Caerdydd. Mae wedi cynnal gwaith ymchwil gyda nifer o wahanol sefydliadau creadigol, gan gynnwys y BBC, Ymddiriedolaeth y BBC, Channel 4 a *The Guardian*, yn ogystal â chynghorau ymchwil y DU ac Ewrop. Mae wedi cyhoeddi dros 100 o lyfrau, erthyglau mewn cyfnodolion a phenodau am ystod eang o faterion yn ymwneud â'r cyfryngau a diwylliant.

*Os oes unrhyw gwestiynau am yr adroddiad hwn, cysylltwch â Mate Miklos Fodor drwy fodorm@caerdydd.ac.uk.*

## Cysylltu â ni

Dr Mate Miklos Fodor

Cydymaith Ymchwil Prifysgol Caerdydd ac Athro Cyswllt Economeg, Ysgol Economeg Newydd (Prifysgol Satbayev)
fodorm@caerdydd.ac.uk

## Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gyda chymorth ariannol yr AHRC a Llywodraeth Cymru. Yr awduron sy'n gwbl gyfrifol am ei gynnwys.

© 2021 Clwstwr, rhaglen ym Mhrifysgol Caerdydd. Cedwir pob hawl.

## Dyfyniad awgrymedig

Fodor, M. M., Komorowski, M. a Lewis, J. (2021). Adroddiad Clwstwr ar y diwydiannau creadigol rhif 3 – Cipolwg wedi'i ddiweddaru ar faint a chyfansoddiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Cyfres cyhoeddiadau Clwstwr, Caerdydd, Clwstwr.